




Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Nodi'r Cysylltiadau rhan 3

Adroddiad ar Arolwg o Weithwyr Tai Proffesiynol mewn
Llywodraeth Leol



Cyflwyniad

Dyma'r trydydd adroddiad, a'r un terfynol, a gynhrychwyd gan Tyfu Tai Cymru sy'n disgrifio profiadau gweithwyr proffesiynol tai awdurdodau lleol yng Nghymru o weithio yn ystod y pandemig Covid 19.

Mae'r astudiaeth unigryw hon yn manylu ar sut yr oedd awdurdodau lleol yn cefnogi pobl o ddigartrefedd i lety ac fe wnaeth llawer o staff symud i weithio gartref ar rybudd byr iawn. Mae ein hadroddiad hefyd yn manylu ar y cyfleoedd a'r heriau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn pan fu'n gliriach nag erioed bod cartrefi pobl yn rhan annatod o'u hiechyd a'u lles.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r arolwg a gynhaliwyd gennym ym mis Mai 2022, cawsom 43 o ymatebion unigol; gostyngiad bach o'r fersiynau blaenorol a dderbyniodd 51 yr un. Mae ail adran yr adroddiad yn adlewyrchu canfyddiadau'r tri arolwg, gan nodi pa wersi y gellir eu dysgu wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fel gyda holl waith TTC, rydym wedi sicrhau bod llais y gweithwyr tai proffesiynol yn ganolog i'r adroddiad a byddwn yn rhannu ein casgliadau gyda'r bobl allweddol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch tai yng Nghymru.

Mae'r ymatebion yn ein hadroddiadau i gyd yn ddienw, ond maent yn dod o awdurdodau sydd wedi cadw eu stoc a rhai nad ydynt, ac yn cwmpasu amrywiaeth o rolau gan gynnwys cyngor ar dai, atal digartrefedd, ymgysylltu â landlordiaid preifat, strategaethau tai a chynllunio. Rydym wedi cynnwys dyfyniadau lle teimlwn eu bod nhw'n helpu i amlygu'r naratif.

Cynhaliwyd ein harolwg cyntaf ym mis Ionawr 2020, yr ail ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2020, a'r un olaf hwn ym mis Mai 2022.

Crynodeb Gweithredol

Nododd ein hymchwil fod pobl yn gweithio yn y sector dai gan iddynt gael eu hysgogi gan eu dymuniad i helpu pobl a chymunedau

Mae ymatebwyr i'n harolygon wedi parhau i amlygu pryderon am sicrhau bod gan bobl lety parhaol i symud ymlaen ato ar ôl cael eu cartrefu dros dro yn ystod y pandemig COVID-19.

Er bod tai yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol, dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod ganddynt bryderon am fethiannau yn y system, yn ymwneud â diffyg tir a chapasiti.

Pan ofynnwyd iddynt am oresgyn digartrefedd, nododd yr ymatebwyr bryderon bod capiau ar gyfradd y lwfans tai lleol ynghyd â chyfraddau rhentu preifat uchel yn golygu i fwy o bobl gael eu prisio allan o ardaloedd lleol.

Bu i ni ofyn i gyfranogwyr, "Sut mae eich ALL wedi gwneud gwaith da wrth ymateb i COVID-19?". Ymatebodd cyfranogwyr yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn gyda nifer yn datgan pa mor ragweithiol oedd eu Hawdurdod Lleol wrth ymateb i COVID-19. Yn benodol, amlygwyd y cyflenwad o lety a chymorth brys fel ymateb cadarnhaol ac amserol. Disgrifiodd cyfranogwyr sut yr oeddent wedi creu cysylltiadau cryfion gyda'u tenantiaid a gwella partneriaethau drwy'r pandemig.

Er i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr nodi i'w Hawdurdod Lleol ymateb yn dda i COVID-19 wrth ddarparu tai a chefnogaeth, dywedodd pobl wrthym iddynt deimlo bod gwasanaethau wedi mynd yn orlawn, gan gael effaith niweidiol ar aelodau staff a'u hiechyd meddwl, a gadael rhai'n lluddedig.

Wrth gefnogi pobl sy'n profi digartrefedd, dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod cynnig dull sy'n canolbwyntio ar y person yn ffordd hyblyg wych o weithio ac y dylid defnyddio'r ymagwedd hon. Amlygwyd hefyd bod angen mwy o lety, a bod angen i'r llety a gynigir fod yn well.


Tynnodd cyfranogwyr sylw at sut y lleihaodd rhwystrau wrth i'r llywodraeth leddfu polisiâu a darparu cymorth ariannol i'r rhai oedd ei angen trwy gydol COVID-19. Dyma rywbeth y teimla cyfranogwyr y dylid ei efelychu i helpu'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

Y canfyddiad mwyaf pryderus yw bod dros 75% o'r ymatebion wedi dweud wrthym iddynt deimlo bod eu lles meddyliol wedi gwaethygu ers Ionawr 2020, a bod pwysau llwyth gwaith yn ffactor allweddol. Fe wnaeth pobl hefyd nodi mesurau'r cyfnod clo, iechyd corfforol gwaeth, addysg gartref, perthnasoedd dirywiol â chydweithwyr a gweithio gartref fel rhai a effeithiodd yn negyddol ar eu hiechyd meddwl.

Canfyddiadau o Arolwg 3

Cymhelliant a boddhad yn y swydd

Fel gydag adroddiadau blaenorol yn y gyfres 'Nodi'r cysylltiadau', roedd prif gymhelliad pobl dros weithio o fewn gwasanaethau tai awdurdodau lleol yn adlewyrchu'n gryf yr awydd i helpu pobl a chael effaith ar heriau cymdeithasol arwyddocaol.



"Cymryd rhan a sefydlu cynlluniau newydd i sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas." - Ymatebwr i'r arolwg

Bu i ni ofyn i'r ymatebwyr fyfyrir ar faint yr oedd eu rôl wedi newid ers mis Ionawr 2020, ac os oedd, i ddarparu gwybodaeth am natur y newid hwn.

Mae 42% o'r ymatebwyr bellach yn gwneud rôl wahanol, mae 21% wedi gweld rhai newidiadau i'w rôl bresennol ac mae 37% yn gwneud yr un rôl.

Y prif newidiadau a nodwyd oedd oherwydd i staff adael, dyrchafiadau mewnol, llwyth gwaith yn cynyddu, a chyflwyno polisiau/deddfwriaeth newydd.

"Rwyf wedi ymgymryd â chyfrifoldeb swyddog clercol ar gyfer Rhentu Cartrefi, yn ogystal â chyfranogiad Tenantiaid a Chymunedol." - Ymatebwr i'r arolwg

Pwysau presennol ac atebion posib

Gofynnwyd i'r ymatebwyr fyfyrir ar eu blaenoriaethau a'r prif bwysau sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Atal digartrefedd oedd y thema amlycaf gan ymatebwyr wrth fyfyrir ar y blaenoriaethau tai allweddol ar gyfer eu hawdurdod lleol.

"Ymdrin â'r argyfwng digartrefedd a symud ymlaen i lety parhaol a chefnogaeth briodol" - Ymatebwr yr arolwg

Yr ail flaenoriaeth fwyaf i'r ymatebwyr oedd datblygu **tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd** - trwy ddarparu cartrefi newydd yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu drwy gefnogi partneriaid cymdeithas tai.

"Cynyddu'r nifer net o gartrefi sydd ar gael, gan gynnwys er enghraifft, rhai a adeiledir o'r newydd gan y Cyngor a thrawsnewid eiddo masnachol segur i gartrefi." - Ymatebwr i'r arolwg

Roedd datblygu a gweithredu **cynlluniau ailgartrefu cyflym** a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 hefyd yn ymddangos nifer o weithiau fel blaenoriaethau o fewn yr ymatebion.

O ran y pwysau y mae staff yn eu hwynebu, roedd y pynciau canlynol yn amlwg:

- Effaith yr argyfwng costau byw ar gymunedau ac argaeledd gwasanaethau priodol i ddarparu cymorth
- Diffyg llety addas i gefnogi pobl i symud ymlaen o lety dros dro
- Yn fwy cyffredinol diffyg opsiynau tai fforddiadwy yn lleol a phryderon ynghylch landlordiaid yn gadael y sector rhentu preifat
- Effaith barhaus rheoli ôl-ddyledion rhent
- Llwyth gwaith trwm, prinder staff a morâl staff isel
- Roedd materion lleol hefyd yn ymddangos e.e. problemau ffosffad yn atal datblygu cartrefi newydd, ail gartrefi a llety air b'n'b yn ychwanegu at broblemau cymorth tai lleol


O ran yr hyn y teimlodd ymatebwyr y byddai'n mynd i'r afael â'r pwysau hyn yn ymarferol, mynegwyd yr elfennau/gweithgareddau canlynol yn gryf yn yr ymatebion:

- Cyflymu'r broses o gyflwyno tai fforddiadwy yn lleol
- Cynnydd yn nifer staff i gefnogi gwasanaethau er mwyn ateb y galw'n effeithiol
- Mwy o fynediad i staff arbenigol, fel therapyddion ac ymarferwyr iechyd meddwl
- Lleihau llwythi gwaith, creu mwy o amser i feddwl, a llai o fiwrocratiaeth/gwaith papur i staff
- Cynnal mwy o becynnau cymorth ariannol i gymunedau fel cymorth yn yr argyfwng costau byw
- Mwy o bwerau i ymdrin â heriau'r farchnad dai leol (e.e. ail gartrefi a rhenti cynyddol yn y SRhP)
- Systemau ac offer TG wedi'u moderneiddio

Faint o flaenoriaeth yw tai o fewn eich ALL?

Dywedodd 87% o'n hymatebwyr wrthym iddynt deimlo bod tai yn flaenoriaeth yn eu Hawdurdod Lleol. Roedd 13% yn teimlo nad oedd, cynnydd bychan o 10% yn yr arolwg blaenorol.

Pa mor hyderus ydych chi yng ngallu eich Awdurdod Lleol i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel?



Beth yw eich canfyddiad o allu eich ALL i adeiladu?

Roedd y maes sy'n peri'r pryder mwyaf i'r ymatebwyr yn ymwneud â chapasiti a thir, ac anfoddhaol neu anfoddhaol iawn oedd dros 50% o'r ymatebion. Yn fwy cadarnhaol, dywedodd 63% o'r staff wrthym iddynt gredu bod gallu eu ALL i daclo digartrefedd yn dda neu'n dda iawn, ac roedd 74% o'r farn bod y sgiliau yn yr ALL yn dda.

	Sgiliau	Tir	Taclo digartrefedd	Adnoddau cynllunio	Sgiliau yn y gymuned leol	Capasiti
Da iawn	18	2	9	1	3	5
Da	14	5	15	13	14	9
Ddim yn dda nac yn wael	7	14	6	20	18	6
Anfoddhaol	4	12	12	8	7	15
Anfoddhaol iawn		12	1	1	1	8
Gwag		1				

Pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen yn eich barn chi i wella gallu eich awdurdod i ymdrin yn ddigonol â digartrefedd?

Mae'r nifer uchel o ymatebion manwl i'r adran hon yn nodi pa mor bwysig yw'r mater hwn i lawer o weithwyr tai proffesiynol, a'r angen am wrando ar fewnwelediad staff ynglŷn â'r pwysau sydd ar y system lliniaru digartrefedd bresennol.

Dywedodd yr ymatebwyr wrthym eu bod yn bryderus iawn am ddiffyg tai â chymorth i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ar gyfer pobl ifanc a phobl sy'n profi problemau iechyd meddwl.

Amlygwyd rôl y sector rhentu preifat gan rai ymatebwyr sydd â phryderon bod y capiau presennol ar gyfradd y lwfans tai lleol ynghyd â chyfraddau rhentu preifat uchel yn golygu y bydd mwy o bobl yn cael eu prisio allan o ardaloedd.

Roedd yr atebion hefyd yn canolbwyntio ar fater y staff hynny sydd wedi bod yn gweithio i gartrefu pobl yn ystod y pandemig ac sydd yn awr yn llosgi allan, a'r pwysau cynyddol maen nhw bellach yn eu hwynebu i gartrefu pobl o Wcraïn a'r argyfwng costau byw, gan arwain at lwyth gwaith trwm parhaus.

"Mwy o fuddsoddiad mewn Tai â Chymorth i'r rhai dan 25 oed sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n agored i niwed"

"ewch 'nôl i'r llai o fiwrocratiaeth o ran cynllunio fel oedd gennym ni yn ystod Covid"

"Byddai diogelwch daliadaeth fel y peth diofyn yn gostwng digartrefedd gan mai un o'r achosion mwyaf o ddigartrefedd yw tenantiaethau ansicr."

"Mwy o gapasiti i weithio'n ddwys gydag aelwydydd unigol sydd angen cefnogaeth."

"Mae'r staff yn gadael, ac yn hollol onest ddim yn gweld bai arnyn nhw. Mae'r cyhoedd yn anghwrtais ac yn meddwl ei fod yn iawn i rhegi atoch chi i lawr y ffôn. Mae'n sefyllfa enbyd."

Ym mhob un o'n harolygon fe ofynnwn ni i staff faint o hyder sydd ganddynt yn y partneriaethau rhwng cydweithwyr tai ac iechyd. Wrth ymateb i'r arolwg diweddar hwn dywedodd 58% wrthym eu bod yn hyderus iawn neu'n eithaf hyderus, gostyngiad o'r 67% yn yr arolwg blaenorol, sydd efallai yn adlewyrchu perthnasoedd gweithio agosach yn ystod y pandemig.

Sut mae eich ALL wedi gwneud gwaith da wrth ymateb i COVID-19?

Ar y cyfan, ymatebodd y cyfranogwyr yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn gyda llawer yn datgan sut roedd Awdurdodau Lleol yn ymatebol iawn o ran sut y gwnaethant ymateb i COVID-19.

Gan y darparwyd llety a chymorth brys i bawb, amlygwyd hyn drwy gydol yr ymatebion fel un o'r prif bethau cadarnhaol i ddod allan o COVID-19.

"Ymateb parod iawn, meddwl yn flaengar, cynyddu cyflenwad TA yn ddramatig (er ar sail dros dro), cyflwyno a pharhau â chyfarfodydd cell digartref, cyflwyno protocol ailgartrefu cyflym, perthynas gref iawn gyda'n partneriaid RSL"

"Rhagorol o ran y llety brys sydd ar gael"

"Gwybodaeth gwell o lawer am bwy sy'n cysgu ar y stryd a'u hanghenion cymorth. Mae gwasanaethau allgymorth a llety dros drowedi cael eu datblygu i gefnogi carfannau penodol gan greu ymgysylltiad gwell. Cynnydd o dros 100% mewn llety dros dro. Clinigau galw heibio i'r gymuned cysgu ar y stryd ar gyfer brechiadau."

Esboniodd cyfranogwyr sut roedd yn rhoi cyfle iddynt greu perthynas gref gyda'u tenantiaid a phartneriaethau gweithio gwell gyda chynnydd mewn gweithio ar y cyd.

Dywedodd un cyfranogwr sut mae tenantiaid bellach yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth fynd at eu sefydliad tai oherwydd y cysylltiadau a adeiladwyd drwy gydol COVID-19.

"O safbwynt tai, fe wnaeth yr adran ymateb yn dda i Covid19 - gwnaed gwiriadau lles gyda phob tenant yn ystod y cyfnod clo a chroesawyd y rhain. Ffurfiwyd perthnasoedd da o'r galwadau hyn sydd wedi cael effaith barhaus. Mae tenantiaid yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth siarad â swyddogion."

"Ydyn, rydyn ni wedi mynd yr ail filltir a'r tu hwnt fel uned i ymateb i'r pandemig ac rydym yn parhau i wneud. Yn bersonol, rwy'n gweld ei fod wedi creu cysylltiadau gweithio gwell o fewn ein hawdurdod ein hunain a llawer o weithio ar y cyd nad oedd bob amser yn digwydd yn flaenorol."

Nododd cyfranogwyr mai nodwedd gadarnhaol oedd bod yr holl bolisiau'n cael eu hystyried a'u diwygio yn unol â hynny, roedd ddarparu llety a chymorth brys i bawb oedd ei angen yn golygu nad oedd neb yn cael ei adael ar ei ôl.

"Fe wnaethon nhw rymuso eu staff i weithredu a helpu'r rhai mewn angen."

Er i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr nodi i'w Hawdurdod Lleol ymateb yn dda iawn i COVID-19 o ran darparu tai a chymorth i bawb, amlygwyd trwy gydol yr arolwg bod gwasanaethau'n cael eu gorlethu, gan gael effaith niweidiol ar aelodau staff a'u hiechyd meddwl, a gadael rhai'n lluddedig.

"Mae'r staff ar lawr gwlad wedi rhoi eu cyfan i gadw'r gwasanaeth i fynd, er y bu hynny ar draul eu hiechyd."

"Mae gwasanaethau wedi'u gorymestyn, ac mae'r staff wedi blino'n llwyr."

Ym mha ffordd/ffyrdd ydych chi'n ystyried bod yna gwersi y mae angen eu dysgu am sut y gwnaeth eich Awdurdod Lleol ymateb i COVID-19?

Y thema bennaf i'r cwestiwn hwn oedd i staff deimlo eu bod yn gorweithio, a bod diffyg staff yn effeithio'n negyddol ar y rhai a fu'n gweithio drwy'r pandemig.

"Mae angen ystyried yr effaith y mae wedi'i gael ar IM staff - effeithiwyd yn fawr ar lawer o staff wrth i'r galw gynyddu ond doedd lefelau staffio ddim."

"Diffyg staff, unedau llety, sgiliau staff ac ati."

"Mwy o staff yn y dyfodol er mwyn diogelu staff presennol rhag llwyth gwaith gormodol."

"Roedd angen mwy o staff i daclo unigrwydd, unigedd ac ysbryd cymunedol."

Canfu'r cyfranogwyr fod cynnig dull sy'n canolbwyntio ar y person yn ffordd hyblyg wych o weithio ac y dylai'r dull hwn barhau i gael ei ddefnyddio wrth gefnogi pobl ddigartref. Fe wnaethon nhw dynnu sylw hefyd at y ffaith bod angen mwy o lety a llety gwell.

"Dylai dulliau hyblyg sy'n canolbwyntio ar person o weithio barhau, gobeithio. Dylai gwasanaethau gwell a mwy cynhwysfawr i bobl ddigartref ar y stryd hefyd barhau."

"Cynnig dull sy'n canolbwyntio ar y person - cyfleoedd gwirfoddoli - cydlyniant cymunedol."

"Mwy o lety a llety gwell i bobl ddigartref."

Tynnodd cyfranogwyr sylw at sut y lleihaodd rhwystrau wrth i'r llywodraeth leddfu polisiâu a darparu cymorth ariannol i'r rhai yr oedd arnynt ei angen trwy gydol COVID-19. Dyma rywbeth y teimla cyfranogwyr y dylid ei efelychu i helpu'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

"Mae angen i becynnau ariannol o gymorth a ddarparwyd gan lywodraeth ganolog i'r rhai fu fwyaf mewn angen yn ystod Covid 19 gael eu hefelychu yn ystod yr argyfwng costau byw."

"Fe wnaethon ni dorri trwy dâp coch gyda chymorth llywodraeth Cymru a fu'n ein rhyddhau o'r gefynnau er mwyn gwneud y gwaith, gwnaethon ni weithio fel un llais."

"Mae modd cyflawni pethau'n rhithwir."

Iechyd a llesiant meddyliol

Yn yr adroddiad terfynol hwn o'r gyfres, roedd gennym ddi-ddordeb mewn clywed mwy gan staff am sut roedden nhw'n teimlo bod eu lles wedi newid ers ein harolwg cyntaf.

Efallai nid yw'n syndod, ond ei fod yn fawr o bryder, i dros 75% o'r ymatebion ddweud wrthym iddynt deimlo bod eu lles meddyliol wedi dirywio ers Ionawr 2020.

Pan ofynnwyd am ffactorau cyfrannol; nododd pobl bwysau llwyth gwaith, mesurau'r cyfnod clo, iechyd corfforol gwaeth, addysg gartref, gwaethygiad mewn cysylltiadau â chydweithwyr a gweithio gartref fel rhai oedd wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl.

I'r nifer llai, y mae eu hiechyd meddwl wedi gwella, nodwyd mai'r ffactorau allweddol oedd symud i weithio gartref, gwell amgylchiadau personol a gwell cysylltiadau â chydweithwyr.

Os yw eich iechyd meddwl wedi gwaethygu, beth yw'r ffactorau allweddol?

Effaith mesurau cyfnod clo	10
Pwysau llwyth gwaith	16
Iechyd corfforol	9
Addysg gartref	6
Llwyth gwaith	5
Perthnasoedd gyda chydweithwyr	5
Cyfathrebiadau corfforaethol	1
Pryder ynglŷn â Covid19	2
Perthnasoedd gyda thenantiaid	4
Gweithio o gartref	8
Rhesymau personol	4
Sicrwydd y swydd	3

Os ydych yn teimlo bod eich iechyd meddwl wedi gwella, dewiswch hyd at dri o'r categorïau fel ffactorau sy'n cyfrannu:

Perthynas â chydweithwyr	6
Rhesymau personol	6
Gweithio hybrid	1
Perthnasoedd gyda thenantiaid	3
Gweithio o gartref	9
Gyrfa y tu allan i'r maes tai	1
Llwyth gwaith llai	2

Gan barhau â'n ffocws ar les, dywedodd dros 50% o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn teimlo iddynt gael eu cefnogi gan eu cyflogwr, gyda rhai'n amlygu'r cymorth ychwanegol a ddarparwyd gan eu hawdurdod lleol gan gynnwys

- Diwrnodau lles
- Gwasanaethau cwnsela
- Cwrdd yn gymdeithasol
- Gweithio o gartref a chymorth gan reolwyr.

Sut ydych chi'n gweld dyfodol tai yng Nghymru?

Beth, yn eich barn chi, yw'r bygythiadau mwyaf i sicrhau bod gan Gymru y cartrefi iawn ar gyfer y dyfodol?

Y pryder mwyaf o bell ffordd yw'r **diffyg llety dros dro** ac atebion mwy parhaol i bobl sy'n chwilio am lety.

Roedd pobl hefyd yn rhannu eu hanfodlonrwydd â **rheoliadau, cynllunio sy'n rhy gymhleth, yr effaith y mae'r Lwfans Tai Lleol yn ei gael ar renti, diffyg tir, a phryderon o ran ailgyllido tai yn y dyfodol.**

Bu i'r ymatebwyr hefyd amlygu'r argyfwng costau byw, a diffyg tir i ddarparu mwy o dai cymdeithasol

Diddorol nodi mai dim ond un person wnaeth amlygu Covid 19 a'r adferiad fel ffactor yr oedden nhw'n ei weld yn broblem

"Mae cynnydd mewn prisiau tai yn rhoi eiddo allan o gyrraedd llawer o bobl sydd wedyn yn golygu eu bod nhw'n gwneud cais am dai cymdeithasol, sy'n rhoi pwysau ar ALL"

"Diffyg cydlynu wrth ymdrin â'r heriau sy'n wynebu datblygiadau tai fforddiadwy."

"costau rhy uchel ar gyfer eiddo rhentu preifat a dim digon ohonynt, landlordiaid sy ddim yn derbyn cynllun bond y cyngor i gael pobl i mewn i eiddo."

"diffyg eiddo gan yr ALL"

"angen atal y mewnlifiad o bobl sy'n prynu ail gartrefi. Gwneud cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol, ni all pobl ifanc fforddio aros yn y cymunedau. Rhowch ryw faint o gymhelliant i landlordiaid rentu eiddo allan gan fod cynifer o landlordiaid yn gwerthu."

"Tlodi. Mae hyn yn effeithio ar iechyd meddwl a gallu i fyw heb bryder, a risg o ddi-gartrefedd."

Beth, yn eich barn chi, yw'r cyfleoedd mwyaf o ran sicrhau bod gan Gymru y cartrefi iawn ar gyfer y dyfodol?

Y cyfle mwyaf oedd **adeiladu mwy o dai fforddiadwy**, sy'n cael eu hystyried yn allweddol i adeiladu dyfodol Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru arwain ar sail genedlaethol ar adeiladu partneriaethau blaengar a chryf ar lefel genedlaethol a lleol a llacio cynllunio i ryw raddau. Syniadau eraill gan gynnwys mwy o ddatgarboneiddio cartrefi newydd a chartrefi presennol, creu mwy o swyddi mewn ardaloedd gwledig, gwell cefnogaeth iechyd meddwl i bobl ifanc a mwy o adnoddau i ALL (ariannol a staffio).

"Partneriaeth, gweledigaeth a rennir a'r ewyllys i wneud gwahaniaeth."

"System cynllunio a rheoleiddio symlach a dyrannu tir hyfyw a digonol er mwyn datblygu"

"Mwy o gyflogaeth i bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig a helpu gyda phrynu cartrefi fforddiadwy"

"Mae'n rhaid ymdrin ag anghenion cefnogaeth er mwyn sicrhau bod tenantiaethau yn gynaliadwy. Parhau â'r gwaith aml-asiantaeth a gyflawnwyd yn ystod y pandemig, yn enwedig ar gefnogi iechyd meddwl"

"Parhau gyda chynyddu symiau grant i ddatblygu tai fforddiadwy."

"Parhau i adeiladu cartrefi ynni effeithlon a di-garbon a gwella cartrefi presennol o bob daliadaeth."

2020 - 2022: Myfyrdod ar ddwy flynedd o bwysau ar adrannau tai mewn awdurdodau lleol.

Pan wnaethom gynnal yr arolwg cyntaf o weithwyr tai proffesiynol ym mis Ionawr 2020, doedd gennym ni ddim syniad bod cymaint ar fin newid o ran y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ar draws gwasanaethau tai a digartrefedd.

Ers y cyfnod hwnnw, diolch i ymrwymiad staff tai mewn awdurdodau lleol, mae Cymru wedi gweld nifer fawr o bobl yn medru cael llety dros dro, tenantiaid yn medru cadw'n ddiogel yn eu cartrefi a phartneriaethau gweithio gwell rhwng cydweithwyr tai ac iechyd.

Mae'r arolwg terfynol hwn yn dweud wrthym fod llawer o staff (42%) yn gweithio mewn rôl wahanol i'r un oedd ganddyn nhw ym mis Ionawr 2020, ac mae gan lawer gyfrifoldebau newydd neu wahanol ers dechrau'r pandemig.

Blaenoriaeth i ymatebwyr yw dod o hyd i atebion tai mwy parhaol ar gyfer pobl sy'n ddigartref a/ neu'n byw mewn llety dros dro. Maen nhw hefyd eisiau mwy o wasanaethau cydgysylltiedig, gyda gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ddigartref gan gydweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae staff yn teimlo effaith yr argyfwng costau byw ar gymunedau, ac maen nhw'n poeni nad yw'r polisiâu presennol (fel y Lwfans Tai Lleol) yn addas i'r diben bellach.

Yn ein harolwg cyntaf, dywedodd staff wrthym eu bod yn pryderu am gyllidebau tynn ALLau ar gyfer cyflwyno ymrwymadau tai. Ers hynny, mae'r pryder wedi'i gysylltu ag adnoddau, staff yn llosgi allan a diffyg llety.

Bu rhywfaint o effaith fwyaf y pandemig ar les meddyliol staff sy'n parhau i fod yn ymrwymedig i weithio yn y sector hwn oherwydd eu bod eisiau helpu pobl a'u bod yn falch o'r gwaith a wneir i gefnogi cymunedau i gadw'n ddiogel. Mae'n hollbwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o ran y pwysau a roddir ar staff mewn adrannau tai llywodraeth leol.



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r tîm:



Catherine May

rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02475 312021



Matt Dicks

cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02475 312018



Chelsey Linskey Jemmett